GENERAL TEACHING COUNCIL FOR WALES
CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

COFNODION DEGFED CYFARFOD AR HUGAIN CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

DYDDIAD: 5ed CHWEFROR 2008

LLEOLIAD: GWESTY'R HILTON, CASNEWYDD

Yn Bresennol:
Aelodau:

Mal Davies (Cadeirydd)	Angela Jardine
Jacquie Turnbull (Dirprwy Gadeirydd)	Valerie Merriman
Phil Bassett	Jane Morris
Frank Bonello	Suzanne Nantcurvis
Neil Butler	Rosemond Nelson
Elwyn Davies	Hugh Pattrick
Sheila Drayton	Anne Robertson
Mike Edwards	Jane Setchfield
Ian Guy	Jacky Tonge
Anthony Hughes	Gwen Williams

Ymddiheuriadau:

Tim Cox	Helene Mansfield
Sarah Stockford	

Swyddogion:

Gary Brace	Prif Weithredwr
Hayden Llewellyn	Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon)
Julia Evans	Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)
Kevin Pascoe	Rheolwr Polisi a Chynllunio
Amy Pike	Swyddog Gweithredol, Gweinyddiaeth (Ysgrifenyddiaeth)

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i ddegfed cyfarfod ar hugain y Cyngor a chadarnhaodd y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddwyieithog. Roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan Tim Cox, Helene Mansfield a Sarah Stockford.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd yr aelod newydd, Neil Butler, a oedd yn dechrau ar ei waith fel aelod etholedig ar y Cyngor am weddill y tymor presennol hyd at 31 Awst 2008.

1.3 Aeth y Cadeirydd ymlaen i groesawu Keith Bartley (Prif Weithredwr, Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr) a oedd yn mynychu'r cyfarfod fel arsylwr, a diolchodd iddo am ei letygarwch yn ystod ymweliad diweddar â ChyngACLl. Estynnwyd croeso pellach i'r sawl a arsylwai o'r oriel gyhoeddus.

1.4 Llongyfarchodd y Cadeirydd Hugh Pattrick am dderbyn MBE yn rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd ac am ddod yn aelod o'r Cyngor ar 1 Chwefror 2008. Aeth ymlaen i

hysbysu'r aelodau bod Matthew McIver (Prif Weithredwr, Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban) wedi derbyn CBE yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd. Roedd llongyfarchiadau'r Cyngor wedi'u cyfleu.

2. Datganiadau o Ddiddordeb

2.1 Datganodd Phil Bassett ei ddiddordeb yn eitem 14 ar yr Agenda "Diweddariad ar Athro Siartredig" a nododd y byddai'n gadael y cyfarfod ar yr adeg briodol.

3. Gohebiaeth y Cadeirydd

3.1 Cyfeiriodd y Cadeirydd yr aelodau at y llythyr, a ddosbarthwyd y bore hwnnw, gan aelod o'r Cyngor, Tim Cox, at y Prif Weithredwr ar 1 Chwefror 2008. Roedd y llythyr yn mynegi gwrthwynebiadau chwyrn i'r cynnydd diweddar yn y ffi gofrestru a'r llythyr atodol at bob athro/athrawes. Aeth y Cadeirydd i'r afael â phob gwrthwynebiad yn ei dro.

3.2 Cyfeiriodd y Cadeirydd yr aelodau at Eitem 5 yng nghofnodion Sesiwn Breifat cyfarfod blaenorol y Cyngor ar 9 Tachwedd 2007. Roedd Eitem 5 yn rhoi manylion yr achos dros osod y ffi ar £45 (5.7-5.11) a'r gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr o ran arbedion maint (5.5) a olygai nad oedd o gymorth tynnu cymariaethau rhwng y ddwy wlad. Atgoffodd yr aelodau fod y cynnydd mawr o 37% yn ganlyniad i flynyddoedd o oedi wrth fynd i'r afael â'r mater (5.4).

3.3 Yn dilyn trafodaeth lawn, roedd y Cyngor wedi cytuno i drosglwyddo'r gwaith o benderfynu ar ei ffi ar gyfer 2008/09 i'r Pwyllgor Gweithredol (5.21). Yn ôl y cais, roedd gwahoddiadau i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 9 Rhagfyr 2007 wedi'u hymestyn at holl aelodau'r Cyngor; roedd tri aelod nad oeddent yn aelodau o'r Pwyllgor wedi derbyn y gwahoddiad.

3.4 Cyfeiriodd y Cadeirydd yr aelodau at Eitem 6 yng nghofnodion y Pwyllgor Gweithredol ar 9 Rhagfyr 2007, ac yn arbennig at 6.5 lle roedd aelodau'r Pwyllgor wedi cytuno bod yn rhaid i GyngACC fod yn barod gydag 'ymgyrch gadarnhaol' a 6.3 lle roedd yr aelodau wedi cytuno bod yn rhaid i GyngACC ofalu i beidio â gorgyffwrdd â gwaith undebau'r athrawon ynghylch materion telerau ac amodau.

3.5 I grynhoi, esboniodd y Cadeirydd fod CyngACC wedi briffio'r holl undebau, gan gyflwyno'r achos dros gynyddu'r ffi a chymharu sefyllfa CyngACC â sefyllfa'r CyngACau eraill. Daeth i'r casgliad bod llythyr CyngACC at bob athro/athrawes ar ôl cynyddu'r ffi gofrestru wedi cyflwyno barn gytbwys.

3.6 Lleisiodd un aelod ei chefnogaeth i lythyr Tim Cox a'i gwrthwynebiad i gynyddu'r ffi, gan ychwanegu ei phryder y byddai'n niweidio hygrededd y Cyngor, o ystyried yr ymateb negyddol a ddaeth i'w rhan gan athrawon. Trafododd yr aelodau'r ymateb gyda rhai yn nodi nad oeddent wedi derbyn yr un sylw negyddol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr mai prin iawn oedd yr ymatebion negyddol a dderbyniwyd a bod hyn yn llai o lawer na'r disgwyl. Awgrymodd y byddai swmp yr ymatebion yn dod i law pan fyddai athrawon yn derbyn eu cyflog ym mis Ebrill a sylweddoli nad oeddent wedi derbyn yr ad-daliad yn llawn.

3.7 Lleisiodd un aelod ei gefnogaeth i'r penderfyniad i gynyddu'r ffi, gan ddadlau bod £12 y flwyddyn yn bris isel i'w dalu ar gyfer corff hunanreoleiddiol a oedd yn gweithio'n galed i gael cydnabyddiaeth i'r proffesiwn addysgu yng Nghymru. Roedd aelod arall yn cytuno ac ychwanegodd fod angen amlygu gwaith da CyngACC i'r proffesiwn ac ni ddylai fod ofn ar y Cyngor bod yn gadarnhaol am ei gyflawniadau. Ychwanegodd trydydd aelod fod CyngACC yn proffesiynoli'r proffesiwn; atgoffodd y Cyngor fod

honiadau maleisus a di-sail yn erbyn athrawon yn cael eu trin yn drylwyr gan y tîm Safonau Proffesiynol a'u diystyru – gallai athrawon fod yn anymwybodol o waith CyngACC yn gysylltiedig â diogelu'r proffesiwn oherwydd nad oedd yr wybodaeth hon, oherwydd ei natur, ar gael yn rhydd i'r cyhoedd.

3.8 Gofynnodd un aelod am eglurhad ynghylch pa rai o swyddogaethau CyngACC a gâi eu cyllido gan ffïoedd cofrestru athrawon. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y swyddogaeth Safonau Proffesiynol yn cael ei chyllido gan ffïoedd cofrestru a bod y cynnydd graddol yn y llwyth gwaith yn mynnu cynyddu'r ffi. Cadarnhaodd fod cyllid Datblygiad Proffesiynol yn niwtral o ran ei gost am iddo gael ei gyllido yn ei gyfanrwydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd y Rhaglen Athro Siartredig hefyd wedi'i chyllido gan y Cynulliad gyda chyfraniad o £7,500 gan GyngACC yn 2007-08.

4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 10fed Gorffennaf 2007

4.1 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir. Nid oedd unrhyw newidiadau i'r cofnodion.

Materion yn codi:

4.2 Cofnod 10.8: Fframwaith Datblygiad Proffesiynol: Cadarnhaodd y Prif Weithredwr nad oedd trafodaeth bellach wedi'i chynnal gydag ADEW (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru) ers y cyfarfod ond cyfeiriodd at y ffaith bod cyllido ar y cyd yn opsiwn o hyd. Ychwanegodd fod angen datblygu syniadau ynghylch dulliau cyllido'r Rhaglen Athro Siartredig yn y brif ffrwd.

4.3 Cofnod 12.6: Cyfarwyddeb yr UE ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol: Holodd un aelod a oedd Merlin wedi codi'r mater yn y cyfryngau. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y bu sylw da i'r mater o fewn wythnos i gyfarfod blaenorol y Cyngor. Rhoddodd addewid i drosglwyddo'r copi i'r aelod nad oedd wedi gweld yr erthygl.

5. Derbyn hysbysiad am unrhyw faterion y dymunai aelodau eu codi mewn perthynas ag Eitemau a nodir ar yr Agenda 'Er Gwybodaeth' (19 to 27)

5.1 Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau.

5.2 Esboniodd y Cadeirydd nad oedd modd i'r un aelod gadarnhau bod cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgorau'n gofnod cywir ai peidio am mai am y tro cyntaf yn unig ym mis Rhagfyr y cyfarfu aelodau newydd y pedwar pwyllgor. Cynigiodd felly y dylid dosbarthu cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau Polisi, Gweithredol a Chofrestru ers mis Medi i aelodau blaenorol y Pwyllgorau hynny iddynt eu cymeradwyo; cytunodd yr aelodau gyda'r cynnig.

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd 7fed Rhagfyr 2007

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y cofnodion hyn a chynghorodd yr aelodau bod pob mater, heblaw dau, yn cael eu trafod ar agenda'r cyfarfod.

Materion yn codi:

6.2 Cofnod 4.2: Adolygiad ariannol 6 misol: Holodd un aelod a oedd Swyddogion y Cyngor wedi llwyddo i ddod o hyd i bolisi yswiriant addas ar gyfer cyfnodau mamolaeth; nododd Julia Evans ei bod yn edrych i mewn i'r mater ac y byddai'n rhoi diweddariad maes o law.

6.3 Cofnod 6.3: Ffi Gofrestru: Gofynnodd un aelod i'r cofnodion gael eu newid i ddarllen 'roedd y Pwyllgor, ar wahân i un aelod, yn gytûn' am ei fod yn gwrthwynebu'r penderfyniad i godi'r ffi ac nid oedd wedi cytuno gydag aelodau eraill y Pwyllgor ar y mater hwn.

6.4 Cofnod 9.4: Cynhadledd Ryngwladol y Cynghorau Addysgu: Adroddodd y Prif Weithredwr fod y Pwyllgor Gweithredol wedi cytuno i'r gynhadledd mewn egwyddor, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor. Roedd yr aelodau'n cydsynio i GyngACC fwrw ymlaen i wneud trefniadau i gynnal y gynhadledd yn 2009.

6.5 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

7. Cofnodion drafft y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd 4ydd Rhagfyr 2007

7.1 Cyflwynodd Sheila Drayton y cofnodion hyn, gan adrodd bod y Pwyllgor wedi derbyn archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o Ddatganiadau Ariannol 2006-07, y Llythyr Rheoli a'r adroddiad Cadarnhau'r Grant. Canfu'r rhain fod systemau a phrosesau CyngACC yn foddhaol heb unrhyw faterion sylweddol yn codi yn eu sgil. Roedd yr archwilwyr mewnol, Bentley Jennison, wedi cael bod CyngACC yn cydymffurfio'n llawn â systemau Talu Wrth Ennill a rhoddwyd sicrwydd sylweddol ar rôl y Pwyllgor Archwilio a'r systemau Rheoli Risgiau. Estynnodd longyfarchiadau i Julia Evans a'r tîm cyllid.

7.2 Hysbysodd y Cyngor fod y Pwyllgor yn ystyried cyfethol aelod nad oedd yn aelod o'r Cyngor, a oedd yn meddu ar gefndir ariannol, cyfrifyddu neu archwilio, i roi cyngor iddo.

7.3 Hysbysodd y Cyngor fod y Pwyllgor wedi penderfynu ymestyn y contract gyda Bentley Jennison am 2 flynedd pellach a derbyniwyd hyn.

7.4 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

7.5 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

8. Cofnodion drafft y Pwyllgor Cofrestru a gynhaliwyd 7fed Rhagfyr 2007

8.1 Cyflwynodd Hugh Pattrick y cofnodion hyn i'r Cyngor, a gwahoddodd yr aelodau i grybwyll unrhyw faterion yn codi.

Materion yn codi:

8.2 Cofnod 4.3: Diweddariad ar Gofrestru: Hysbysodd un aelod y Cyngor am gylchlythyr diweddar gan CCAUC ynghylch Targedau Niferoedd Derbyn 2008/09 a anfonwyd at yr holl ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru. Roedd llythyr atodol gan y Cynulliad yn esbonio'r rhesymau dros y gostyngiad mawr yn y targedau niferoedd derbyn ac roedd y rhain, yn ei farn ef, yn esgor ar oblygiadau difrifol o bosibl.

8.3 Cofnod 4.4: Diweddariad ar Gofrestru: Holodd un aelod am ddiweddariad ar fodel peilot cyflenwi athrawon i Gymru. Esboniodd Hayden Llewellyn fod CyngACC wedi cynorthwyo drwy ddarparu gwybodaeth ystadegol ar gyfer y peilot, ond nad oedd mewn sefyllfa i roi diweddariad pellach am mai'r Cynulliad oedd yn arwain y gwaith.

8.4 Cofnod 6: Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed: Esboniodd Hugh Pattrick wrth aelodau'r Cyngor y byddai'r Ddeddf newydd yn golygu newid mawr i brosesau cofrestru. Yn dilyn trafodaeth ar lefel Pwyllgor, roedd ymateb drafft wedi'i ddosbarthu'n ddiweddar i'r holl aelodau: dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau neu sylwadau at Hayden Llewellyn.

8.5 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

9. Cofnodion drafft y Pwyllgor Polisi a gynhaliwyd 13eg Rhagfyr 2007

9.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y cofnodion hyn a chynghorodd yr aelodau y byddai'r holl faterion yn cael eu trafod ar agenda'r cyfarfod.

9.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

9.3 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

10. Aelodau Pwyllgorau CyngACC (CYNGACC 01/08)

10.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn, gan hysbysu'r Cyngor bod y Pwyllgor Archwilio heb benodi pedwerydd aelod hyd yma. Aeth ymlaen i gadarnhau mai Jacky Tonge a Mike Edwards oedd y cysylltiadau 'chwythu'r chwiban' newydd ar gyfer y staff. Nododd aelodau'r Cyngor aelodau newydd Pwyllgorau Sefydlog y Cynghorau, y Bwrdd Golygyddol DPP a'r cysylltiadau chwythu'r chwiban.

10.2 Gwahoddodd y Prif Weithredwr drafodaeth ar rôl y Grŵp Ymgynghorol DPP. Roedd y grŵp, yn cynnwys aelodau'r Cyngor a phwyntiau cyfeirio o'r tu allan, wedi'i sefydlu i lywio'r rhaglen gyllido DPP a oedd wedi'i hen sefydlu bellach. Roedd cwestiynau am ei bwysigrwydd fel grŵp cyswllt, oherwydd bodolaeth y Grŵp Cyswllt Addysg Athrawon a oedd yn darparu fforwm ar gyfer cysylltu ar amrywiol faterion gan gynnwys datblygiad proffesiynol. Gan ystyried y gwendidau fel y'i nodwyd ym mharagraff 12, gwahoddwyd y Cyngor i roi eu barn ar ddyfodol y Grŵp Ymgynghorol DPP. Ar ôl trafod, cytunodd yr aelodau fod y Grŵp wedi ateb ei ddiben ac y gellid ei ailgynnull yn y dyfodol os byddai angen. Cytunodd y Prif Weithredwr i ysgrifennu at aelodau'r grŵp i'w hysbysu y byddai'r grŵp yn cael ei ddiddymu ac yn nodi'r rhesymau uchod.

11. Cynllun Corfforaethol Drafft 2008/11 a Chynllun Gweithredol 2008/09 (CYNGACC 02/08)

11.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur, gan esbonio'r mai'r nod oedd sicrhau bod y cynlluniau newydd yn llai amleiriog na'r cynlluniau blaenorol ac yn egluro swyddogaeth y naill a'r llall. Tywysodd yr aelodau gam wrth gam drwy bob amcan, gan wahodd sylwadau, a holodd a ellid cyflwyno unrhyw sylwadau a/neu anodiadau manwl i swyddogion.

<u>Cynllun Corfforaethol:</u>

11.2 Cynigiodd un aelod y dylid ailadrodd y rhesymeg o dan yr adran 'Ein rôl a'n gorchwyl' (tud. 4) o dan bob amcan. Bu'n dadlau y byddai atgyfnerthu'r rhesymeg drwy'r ddogfen yn cryfhau rôl a gorchwyl CyngACC. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y gellid cynnwys datganiad o dan bob amcan i esbonio sut oedd pob un yn cynorthwyo CyngACC i ateb ei nod cyffredinol. Cynigiodd aelod arall y dylid ailadrodd y rôl, y gorchwyl a'r rhesymeg ar y dudalen gynnwys, am eu bod mor bwysig, er mwyn i ddarllenwyr oedd yn cipddarllen y ddogfen beidio â'u hepgor. Roedd yr aelodau'n cytuno gyda'r holl gynigion.

11.2 Tynnodd un aelod sylw'r Cyngor at y nod o dan 3.2 (tud.12) a holodd sut oedd CyngACC yn bwriadu sicrhau bod anghenion athrawon unigol yn cael eu bodloni. Esboniodd swyddogion y Cyngor y gallai cyllid DPC â ffocws unigol sicrhau bod gan athrawon fodd ariannol o fodloni eu hanghenion proffesiynol, ond cytunodd y gallai eu hanghenion amrywio ac y dylid aralleirio'r frawddeg.

11.3 Cytunodd swyddogion y Cyngor i ddileu'r cyfeiriad at y Grŵp Ymgynghorol DPP (Amcan 3.3 - tud.13) yng ngoleuni'r drafodaeth flaenorol.

11.4 Tynnodd un aelod sylw'r Cyngor at y tabl ar dudalen 19 a holodd ynghylch y diffygion ariannol a ragfynegwyd o ystyried bod y ffi gofrestru wedi'i chynyddu i £45. Esboniodd y Prif Weithredwr nad oedd CyngACC wedi argymell gosod y ffi ar £45 am 3 blynedd: roedd wedi'i gosod am 3 blynedd gan y Gweinidog ac roedd hyn yn dangos beth fyddai canlyniad hynny. Ychwanegodd y byddai cynyddu fesul dipyn yn ffordd well o symud ymlaen yn y dyfodol a bod yr aelodau wedi clywed ymateb y Gweinidog i'r awgrym hwn yn gynharach yn y bore. Mynnodd yr aelod y dylai CyngACC ofyn am ragor o arian gan Lywodraeth y Cynulliad a nododd y Prif Weithredwr mai wrth gyflwyno'r cynllun oedd yr adeg i wneud hyn.

11.5 Roedd aelodau'r Cyngor yn fodlon ar Gynllun Corfforaethol 2008/11 ac yn hapus i drosglwyddo'r mater i'r Pwyllgor Gweithredol i roi terfyn arno.

Cynllun Gweithredol:

11.6 Nododd un aelod pa mor ddefnyddiol oedd cynnwys tablau o dan bob pennawd yn cysylltu'r amcanion â'r costau dan sylw. Nododd ei bod yn braf gwybod beth oedd CyngACC yn ei neilltuo i bob amcan, ynghyd â'r canlyniadau disgwyliedig.

11.7 Nododd un aelod fod y cynllun yn fanwl iawn a gofynnodd oni ddylai CyngACC ganolbwyntio ar gynllun datblygu yn hytrach na chynllun oedd yn sôn am weithgareddau o ddydd i ddydd. Ymatebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud bod llawer o'r gwaith a wnaed gan GyngACC yn dilyn patrwm cylch a phrosesau, ac felly bod angen nodi manylion gweithgareddau o ddydd i ddydd. Esboniodd fod y Cynllun Gweithredol, yn wahanol i'r Cynllun Corfforaethol, yn ddogfen fewnol a'i fod yn cael ei ddefnyddio i nodi gweithgarwch gweithredol manwl, dyrannu adnoddau a monitro'r dull o gyflwyno amcanion.

11.8 Cytunodd swyddogion y Cyngor i ddileu'r cyfeiriad at y Grŵp Ymgynghorol DPP (Amcan Gweithredol 3.3, e. - tud.18) yng ngoleuni'r drafodaeth flaenorol.

11.9 Esboniodd y Prif Weithredwr fod Cynllun Gweithredol 2008/09 yn waith oedd yn mynd rhagddo ac y byddai'n cael ei dynhau dros y ddeufis nesaf. Roedd yr aelodau'n fodlon ar y Cynllun ac yn hapus i drosglwyddo'r mater i'r Pwyllgor Gweithredol i roi terfyn arno.

12. Adroddiad cyllido Sefydlu a DPC (CYNGACC 03/08)

12.1 Cyflwynodd Hayden Llewellyn yr adroddiad cynnydd ar waith CyngACC yn gweinyddu cyllid Sefydlu a DPC. Gwahoddwyd yr aelodau i dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth ac i ofyn am eglurhad ar unrhyw bwyntiau.

12.2 Gan gyfeirio at baragraffau 12-16, cadarnhaodd y byddai cyfnodau hanner tymor olynol yn cyfrif o hyn allan tuag at gyfnod Sefydlu athro/athrawes.

12.3 Gwahoddwyd yr aelodau i nodi'r cais a wnaed i'r Cynulliad am gyllid ariannol yn y flwyddyn ariannol bresennol (paragraffau 30-32).

12.5 Nid oedd unrhyw bwyntiau i'w hegluro ac roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad.

13. Adroddiad y Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol (CYNGACC 04/08)

13.1 Cyflwynodd Hayden Llewellyn yr adroddiad cynnydd ar Raglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol CyngACC. Gwahoddwyd yr aelodau i dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth ac i ofyn am eglurhad ar unrhyw bwyntiau.

13.2 Gan gyfeirio at baragraff 7, atgoffodd yr aelodau fod swyddogion wedi cyflwyno cais ym mis Rhagfyr 2007 i'r Cynulliad Cenedlaethol am gyllid ychwanegol. Adroddodd fod £175,000 pellach wedi'i ddyrannu i'r rhaglen ers hynny, gan roi cyfanswm o £400,000 o gyllid ychwanegol hyd yma ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Ychwanegodd fod swyddogion nawr yn cyfrifo pa gyllid ychwanegol pellach fyddai ei angen o bosibl hyd at 31 Mawrth 2008 ac yn trafod gyda swyddogion y Cynulliad. Nid oedd unrhyw bwyntiau i'w hegluro ac roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad.

13.3 Hysbysodd y Prif Weithredwr yr aelodau fod swyddogion y Cynulliad wedi tynnu sylw at y ffaith bod y gyllideb yn dynn ar gyfer 2008-09 a'r posibilrwydd na fyddai hyblygrwydd o bosibl petai amgylchiadau ar ddiwedd y flwyddyn yn debyg.

13.4 Rhoddodd Hayden Llewellyn ddiweddariad i'r aelodau am newidiadau staff o fewn y tîm Cyllido Datblygiad Proffesiynol. Adroddodd fod Maria Boex, y Rheolwr Datblygiad Proffesiynol, wedi'i secondio o'r tîm i gymryd rôl Rheolwr Athro Siartredig, bod aelod arall wedi camu i fyny i'w rôl hithau a bod aelod arall wedi gadael y sefydliad; felly roedd y tîm wedi crebachu o 5 aelod i 3.

13.5 Nid oedd unrhyw bwyntiau i'w hegluro ac roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad.

14. Diweddariad Athro Siartredig (CYNGACC 05/08)

14.1 Cyflwynodd Hayden Llewellyn y papur gan roi diweddariad i'r aelodau am y Rhaglen Athro Siartredig. Gwahoddwyd yr aelodau i dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth ac i ofyn am eglurhad ar unrhyw bwyntiau.

14.2 Hysbysodd yr aelodau fod y rhaglen beilot yn mynd yn ei blaen yn dda, gyda'r modiwl cyntaf (Datrys wrth Drafod) yn cyrraedd ei derfyn, modiwlau Casnewydd ac APCC newydd ddechrau a dau fodiwl pellach i ddechrau ddiwedd Chwefror.

14.3 Cadarnhawyd y byddai'r modiwl *Arwain y Dysgu* y cyfeiriwyd ato ym mharagraffau 13-16 yn cynnwys yr opsiwn i'w gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg.

14.4 Cadarnhawyd bod dau dendr wedi'u derbyn ar gyfer gwerthusiad annibynnol y rhaglen beilot ac y byddai'r Cyngor yn clywed y diweddaraf maes o law ar ôl i'r panel dethol wneud ei benderfyniad.

14.4 Tynnodd Hayden Llewellyn sylw'r aelodau at baragraffau 31 i 35 ac esboniodd y byddai penderfyniad y Cyfrin Gyngor, sef na fyddai angen Siarter Frenhinol bellach ar GyngACC i ddyfarnu statws Athro Cymwys, yn golygu proses lawer symlach a chryn dipyn yn llai o waith i swyddogion.

14.5 Mynegodd un aelod bryderon bod yr aseiniadau hir gan athrawon ar rai o'r modiwlau peilot yn ymddangos yn groes i'r sicrwydd blaenorol a gafodd y byddai'r peilot wedi'i seilio ar waith, yn cynnwys portffolios, ac ni fyddai'n effeithio ar lwyth gwaith athrawon. Esboniodd Hayden Llewellyn fod y cynlluniau peilot wedi'u trwytho mewn arfer athrawon ac ni fyddai athrawon allan o'r ystafell ddosbarth am amser sylweddol (e.e. 3 diwrnod ar y mwyaf); roedd athrawon ar y peilot yn gweithio gyda'i gilydd y tu allan i amser ysgol ac yn defnyddio'u gwybodaeth a'u profiad cyfun yn yr ystafell ddosbarth. Cynigiodd y Dirprwy Gadeirydd sicrwydd ei bod wedi mynychu sesiwn ar y modiwl *Datrys wrth Drafod* gyda'r un math o gamdybiaeth yn ei meddwl ond ei bod wedi'i bodloni bod yr holl weithgareddau wedi'u seilio'n helaeth ar yr ystafell ddosbarth a bod

yr athrawon yn cael profiad hynod ysgogol ac ymarferol. Ychwanegodd ail aelod fod y llwybr achredu amgen, ar sail portffolio, ar fin dechrau'n fuan.

14.6 Nid oedd unrhyw bwyntiau pellach i'w hegluro ac roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad diweddaru.

15. Trefniadau arolygu Estyn yn y dyfodol – datblygu safbwynt i'r Cyngor (CYNGACC 06/08)

15.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad hwn a oedd yn cynnig datblygu safbwynt i'r Cyngor ynghylch trefniadau arolygu ysgolion yn dilyn ymgynghoriad diweddar gan Estyn. Gan ystyried barn y Pwyllgor Polisi, roedd swyddogion CyngACC wedi llunio a chyflwyno datganiad safbwynt interim mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar rybudd byr iawn (Atodiad A). Gwahoddwyd yr aelodau i dderbyn y datganiad safbwynt interim ac, os yn briodol, cytuno i Grŵp Gorchwyl a Gorffen gael ei sefydlu i ddatblygu safbwynt polisi cynhwysfawr ar gyfer y Cyngor.

15.2 Nododd un aelod nad oedd cyfeiriad yn y datganiad polisi interim at rôl ymgynghorwyr awdurdodau lleol ac ymgynghorwyr eraill. Ychwanegodd ei farn y byddai rôl Estyn ac arolygu preifat yn cael eu lleihau, o ganlyniad cefnogaeth ymgynghorwyr ac AALlau.

15.3 Gan gyfeirio at ryngweithio gyda rhieni ym mharagraff 7 o Atodiad A, esboniodd un aelod, o safbwynt y sector cynradd, ei bod yn dod yn anos cael cyfranogiad rhieni wrth i blentyn fynd yn hŷn. Yn aml roedd amrywiol resymau a strategaethau'n cael eu cyflwyno gan yr ysgol i drechu'r broblem ond gallent fod yn aflwyddiannus. Mynegodd bryder y gallai ysgol gael ei mesur am ei rhyngweithio gwael gyda rhieni er gwaethaf ei hymdrechion gorau.

15.4 Gan gyfeirio at baragraff 8 o Atodiad A, lleisiodd un aelod ei barn y dylai arolygiadau Estyn ategu hunanwerthusiadau ysgolion. Ychwanegodd y byddai ystyried y teulu ysgolion a'r profiad addysgol yn ei gyfanrwydd yn fwy o her o lawer i Estyn na'r trefniadau presennol ac yn adfywio'i brosesau. Cytunodd aelod arall ac ychwanegodd y dylai athroniaeth Estyn, yn ei farn ef, fod yn llai cosbol a mwy datblygol.

15.5 Gan gyfeirio at baragraff 9 o Atodiad A, mynegodd un aelod ei phryder mai Athrawon Siartredig yn unig a fyddai'n cael eu hystyried ar gyfer rôl ymgynghorwyr o fewn awdurdodau lleol yn y dyfodol.

15.6 Cynigiodd y Prif Weithredwr ei bod yn adeg addas i GyngACC lunio polisi safbwynt cynhwysfawr ar y mater ac argymhellodd greu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu'r safbwynt ac adrodd yn ôl i'r Cyngor am ei gydsyniad. Cytunodd y Dirprwy Gadeirydd ei fod yn gyfle gwych i GyngACC ddylanwadu ar resymeg Estyn a'i ffordd o weithredu ar y mater hollbwysig hwn. Cytunodd yr aelodau fod angen datblygu syniadau CyngACC yn strategaeth gynhwysfawr drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

15.7 Cynigiodd y Prif Weithredwr y dylid sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen cyn gynted â phosibl er mwyn i bolisi safbwynt cynhwysfawr y Cyngor gael ei gyflwyno i Dr Maxwell pan ddaw i'w swydd fel Prif Arolygydd.

15.8 Cynigiodd un aelod y dylai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen gynnwys aelodau'r Cyngor oherwydd cyfyngiadau'r gyllideb, yn hytrach nag unigolion o sefydliadau allanol; cytunodd yr aelodau fod digon o arbenigedd o fewn y Cyngor ei hun. Gwahoddwyd yr aelodau i fynegi diddordeb i'r Prif Weithredwr; câi aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen eu dethol gan y grŵp cyfeirio.

15.9 Cyfeiriodd y Cadeirydd yr aelodau at baragraff 8 o'r papur a chytunodd yr aelodau i gyfansoddiad arfaethedig y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

15.10 Cynigiodd y Dirprwy Gadeirydd y dylai Cadeirydd y Cyngor gadeirio'r grŵp o ystyried pwysigrwydd y mater ar yr agenda; eiliwyd hyn a chafodd ei gytuno.

15.11 Trafododd yr aelodau a fyddai'n briodol cynnwys safbwyntiau gan aelodau allanol yn cynrychioli llywodraethwyr, awdurdodau lleol, y sectorau cyn ysgol ac ôl-16 ac ati; roedd rhai o'r farn y byddai'n werthfawr tra bod eraill o'r farn mai safbwynt a phersbectif y proffesiwn addysgu yn unig a ddylai gael ei gynrychioli gan bolisi safbwynt CyngACC. Gadawyd hyn yn agored i aelodau fynegi diddordeb. Atgoffwyd yr aelodau y byddai'r holl waith a ddatblygwyd gan y grŵp yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor maes o law, fel y câi pob aelod gyfle i ychwanegu eu barn.

16. Diweddariad Safonau Proffesiynol (CYNGACC 07/08)

16.1 Rhoddodd Hayden Llewellyn ddiweddariad i'r aelodau am waith y Tîm Safonau Proffesiynol, gan eu tywys drwy bob adran o'r papur yn ei thro.

16.2 Gwahoddwyd yr aelodau i nodi bod 5 aelod lleyg wedi'u penodi i eistedd ar bwyllgorau Safonau Proffesiynol; roedd diwrnod hyfforddi wedi'i drefnu ar gyfer 14eg Ebrill.

16.3 Tynnodd Hayden Llewellyn sylw'r aelodau at y Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Newid a goblygiadau hyn ar brosesau CyngACC. Ychwanegodd y dylai'r oedi tebygol wrth weithredu'r cynllun, o hyd at flwyddyn, roi digon o amser i'r Cyngor wneud y newidiadau angenrheidiol. Atgoffodd yr aelodau fod ymateb drafft i'r ymgynghoriad i'r Adran dros Blant, Teuluoedd ac Ysgolion ar yr Awdurdod Diogelu Annibynnol wedi'i ddosbarthu i ennyn sylwadau.

16.4 Cyfeiriodd yr aelodau at y newid arfaethedig i Weithdrefnau a Rheolau Disgyblu CyngACC yn Atodiad A a gwahoddodd sylwadau. Holodd un aelod am eglurhad o '(gwaharddiad safonol a dirwy)' a gofynnodd iddo gael ei nodi yn y pwyntiau bwled yn hytrach na chyfeirio i lawr ato; cytunodd y Cyngor i'r newid hwn.

16.5 Nid oedd unrhyw bwyntiau pellach i'w hegluro ac roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad diweddaru.

17. Proffesiynoli'r sector Dysgu Gydol Oes (CYNGACC 08/08)

17.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn i'r Cyngor, gan esbonio iddo gael ei sbarduno gan ganlyniad Adolygiad Webb nad oedd wedi cynnig unrhyw argymhellion parthed proffesiynoli er gwaethaf cyflwyniadau CyngACC. Hysbysodd yr aelodau ei fod yn disgwyl ymateb ar hyn o bryd i'w lythyr at Syr Adrian Webb (Atodiad A).

17.2 Gwahoddwyd yr aelodau i nodi'r safbwynt ar y sector Dysgu Gydol Oes a gâi ei ddatblygu gan y Pwyllgor Polisi fel y nodwyd ym mharagraffau 7-9. Yn fyr, mae CyngACC yn dadlau y dylid trin pawb sy'n gweithio yn y sector ôl-orfodol (14-19) fel athrawon o ran DPP, safonau proffesiynol, ac y dylai fod corff ymbarél ar eu cyfer. Gwahoddwyd yr aelodau i gyflwyno sylwadau a syniadau ar y safbwynt oedd yn cael ei ddatblygu.

17.3 Nododd un aelod nad oedd yn hoff o'r teitl, yn arbennig y defnydd o'r ymadrodd 'Dysgu Gydol Oes'. Trafododd yr aelodau bosibiliadau eraill gan gynnwys 'ôl-14', fel y

defnyddiwyd gan Adolygiad Webb, ond penderfynwyd defnyddio 'sector AB'. Gan gyfeirio at baragraff 8, cytunwyd y dylai safbwynt y Cyngor ganolbwyntio ar y sector AB, yn hytrach na cheisio cynnwys yr holl rolau amrywiol o fewn y sector dysgu gydol oes.

17.4 Atgoffodd y Dirprwy Gadeirydd yr aelodau o ymateb y Gweinidog y bore hwnnw i'r sector Dysgu Gydol Oes, h.y. roedd y Gweinidog wedi nodi y byddai swyddogion yn cadw llygad ar ddatblygiadau yn Lloegr. Gan gyfeirio at baragraff 9, rhybuddiodd y Dirprwy Gadeirydd yn erbyn cysylltu sefyllfa Cymru â sefyllfa Lloegr.

17.5 Cafwyd trafodaeth am statws y rheiny yn y sector AB ac athrawon ysgol cymwys. Mynegodd un aelod bryder y gallai CyngACC ddenu statws i diwtoriaid ac ati, nad oeddent o bosibl wedi'u cymhwyso'n dda iawn, a rhoi mynediad i gyllid datblygiad proffesiynol a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer athrawon cymwys. Awgrymodd y Prif Weithredwr y gellid gwahaniaethu rhwng safonau proffesiynol, drwy ofyn i'r rheiny yn y sector AB lynu at yr un disgwyliadau mewn perthynas ag ymddygiad, ond nid o ran cymhwysedd. Mynegodd y Dirprwy Gadeirydd ei barn y dylid gwarantu safonau tebyg i bobl ifanc 14-19 oed ni waeth bynnag lleoliad yr addysgu. Cytunodd aelod arall na ddylid eithrio unigolion sy'n gweithio yn y sector AB ond yn hytrach dylid eu hannog i ddyheu i'r un safonau proffesiynol ag athrawon cymwys; roedd ond yn rhesymol disgwyl i'r un safonau fod yn berthnasol o ran pethau fel marcio a pherthnasau rhwng myfyrwyr, ni waeth bynnag y lleoliad. Anogodd aelod arall yr aelodau i edrych i fyny a thu hwnt i'r system addysg gyfnewidiol a nododd fod angen i'r Cyngor fod ar ei wyliadwraeth bob amser i'r ffordd caiff polisi ei ddatblygu a sut caiff yr agenda ei newid. Hysbyswyd y Cyngor gan aelod pellach fod rhai gweithwyr proffesiynol yn y sector AB yn meddu ar gymwysterau tebyg i TAR ond gyda setiau gwahanol o safonau yr oedd angen eu bodloni; roedd yn hanfodol, yn ei farn ef, bod y naill set yn newid i 'gydweddu a chydblethu' â'r llall.

17.6 Aeth ymlaen i roi ei farn bod cryn ddryswch am y mater o broffesiynoli'r sector AB ac am nad oedd awdurdod yng Nghymru ar y mater, roedd Lifelong Learning UK yn cymryd yr awenau, a hynny'n amhriodol. Roedd angen i GyngACC unioni'r sefyllfa hon. Cynigiodd y Cadeirydd fod cymryd rôl arweiniol wrth broffesiynoli'r sector AB yn gam rhesymegol ymlaen i GyngACC ac ychwanegodd y Dirprwy Gadeirydd fod yn rhaid iddo ailgydio mewn trafodaethau gyda Fforwm a mabwysiadu safbwynt rhagweithiol ar y mater. Roedd aelodau'r Cyngor yn cytuno gyda'r cynigion.

18. Dadansoddiad ystadegol: meysydd astudio athrawon uwchradd o gymharu â'r pynciau a addysgir ganddynt (CYNGACC 09/08)

18.1 Cyflwynodd Hayden Llewellyn y papur hwn gerbron y Cyngor ynghyd â dadansoddiad ystadegol manwl: sef y cyntaf o'i fath a gynhyrchwyd ar gyfer y Cyngor. Cyflwynwyd canfyddiadau manwl ar ffurf graffiau gan ddefnyddio cyflwyniad PowerPoint. Roedd y dadansoddiad wedi'i seilio ar ddata a dynnwyd o gofrestr CyngACC, a oedd yn gallu darparu gwybodaeth unigryw am athrawon yng Nghymru ac y gellid ei defnyddio fel teclyn polisi gwerthfawr. Esboniodd Hayden Llewellyn fod hyder bellach yng nghywirdeb y data hwn ac y byddai datganiad yn cael ei gyhoeddi i'r wasg yn fuan ar ganfyddiadau allweddol y dadansoddiad. Gwahoddodd yr aelodau i gyflwyno'u sylwadau am y cyflwyniad a nodi unrhyw faterion eraill i'w dadansoddi yn y dyfodol.

18.2 Nododd un aelod ei syndod bod cynifer o'r athrawon a hyfforddwyd mewn Gwyddoniaeth yn dal i addysgu'r pwnc, cyfanswm o 73.6%, ffigwr roedd wedi disgwyl iddo fod lawer yn is; ychwanegodd ei bod o'r farn bod yr wybodaeth hon yn galonogol iawn.

18.3 Holodd un aelod a oedd nifer yr unigolion a oedd yn addysgu pynciau nad oeddent wedi cael hyfforddiant ynddynt yn dod i'r amlwg mewn ceisiadau am ddatblygiad proffesiynol, h.y. a oedd yr athrawon hyn yn ceisio uwchraddio'u sgiliau? Hysbysodd Hayden Llewellyn yr aelodau fod hwn yn faes oedd yn haeddu ei ddadansoddi ymhellach, ond ychwanegodd fod nifer yr athrawon sy'n ymgeisio am gyllid ar gyfer hyfforddiant AAA yn cefnogi hyn. Nododd aelod arall fod y cynnydd yn nifer yr athrawon cymwys oedd yn mynychu ei sefydliad addysg uwch ar gyfer hyfforddiant AAA hefyd yn cefnogi hyn.

18.4 Aeth ymlaen i holi a oedd brigau'r proffil oedran yn cyd-fynd â chyfnodau o ddirwasgiad. Yn anecdotaidd, hysbysodd yr aelodau fod nifer yr unigolion a oedd yn hyfforddi ar gyfer pynciau prin yn ei sefydliad addysg uwch yn cynyddu ar adegau o ddirwasgiad.

18.5 Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau pellach ac roedd yr aelodau'n fodlon derbyn y dadansoddiad er gwybodaeth.

19. Unrhyw fater arall

19.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 1af Mai 2008
yng
Ngwesty Lamphey Court, Penfro